



Cylch Gorchwyl Panel Cynghori

Cronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog

1.0 Pwrpas a rôl aelodau'r panel:

- Ffurfiwyd y panel yn 2020 gan CGGC sef gweinyddwyr y gronfa ar ran RWE.
- Pwrpas y panel yw i ystyried ceisiadau sy'n cael eu cyflwyno gan grwpiau cymwys i Gronfa Buddsoddi Cymunedol Fferm Wynt Coedwig Clocaenog, a gwneud awgrymiadau i gyd-fynd â'r ceisiadau.
- Mae'n ofynnol i aelodau'r panel ddatgan diddordeb am unrhyw brosiect ble mae ganddynt gyswllt ag ef ynghyd â chadw cyfrinachedd nes bydd penderfyniad y panel wedi'i gyhoeddi.
- Ni ddylai aelodau'r panel ddatgan unrhyw wybodaeth gyfrinachol am unrhyw ymgeisydd / fudiad mewn unrhyw sefyllfa.
- Mae aelodau'r panel yn cynrychioli a chefnogi yr holl gymunedau o fewn ardal budd Cronfa Buddsoddi Cymunedol Fferm Wynt Coedwig Clocaenog.
- Mae gofyn i aelodau'r panel barchu barn a sylwadau'r aelodau eraill ar y panel.
- Mae gofyn i aelodau'r panel benderfynu a thrafod strwythur y gronfa e.e. cymhwysedd a meini prawf.
- Gofynir i aelodau'r panel gynghyori a rhoi sylwadau a'u barn ar y ffurflenni ymgeisio â'r canllawiau.

2.0 Aelodaeth

Ffurfir y panel o'r cyrychiolwyr canolynol:

- Cymorth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy (CGGC)
 - Prif Swyddog
 - Rheolwr y gronfa
- Cadwyn Clwyd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sir Ddinbych
- Cynrychiolydd o RWE



➤ Aelodau o'r gymuned (Gwirfoddol)

- Busnes
- Twristiaeth
- Plant a phobl ifanc
- Henoed
- Amaeth
- Datblygu Cymunedol

Bydd cyfarfodydd y panel yn cael eu cadeirio gan brif swyddog CGGC

- Bydd hawl gan aelodau'r panel i enwebu rhywun addas o'u mudiad i fynychu yn eu habsenoldeb.
- Byddwn yn gofyn i aelodau gydag 'arbenigedd' angenrheidiol i ymuno gyda'r cyfarfodydd o dro i dro.

3.0 Rôl Gweinyddol CGGC

- Mi fydd Rheolwr Cronfa Buddsoddi Cymunedol Fferm Wynt Coedwig Clocaenog yn gwneud penderfyniadau ar gymhwysedd ymgeiswyr a thrafod y prosiectau gyda hwy i wneud yn siwr fod y prosiectau yn gymwys cyn eu cyflwyno i'r panel.
- Bydd gweinyddwr Cronfa Clocaenog yn darparu cofnodion wedi pob cyfarfod
- Bydd gweinyddwr Cronfa Clocaenog yn gwneud yn siwr fod aelodau'r panel yn cael y cofnodion o'r cyfarfod diwethaf ynghyd âg agenda cyn pob cyfarfod.
- Bydd gweinyddwr Cronfa Clocaenog yn trefnu pob cyfarfod o'r panel
- Bydd Rheolwr Cronfa Clocaenog yn darparu crynodeb o bob cais i'r panel ac yn eu gyrru ymlaen llaw i'r aelodau gael amser i'w cysidro cyn y cyfarfod.
- Ynghyd â gweithdrefnau CGGC bydd gweinyddwr Cronfa Clocaenog yn gyfrifol am hysbysu'r ymgeiswyr am unrhyw argymhellion sydd gan y panel ynghyd â'u hysbysu o lwyddiant y cais.

4.0 Cyfarfodydd

- Cynhelir cyfarfodydd bob chwarter
- Trefnir y cyfarfodydd gan weinyddwr Cronfa Clocaenog ac mi fydd yn cael ei gadeirio gan brif swyddog CGGC
- Os bydd angen mi fydd y cadeirydd yn cynnal cyfarfodydd brys ynglyn â materion penodol
- Gallwn drefnu cyfarfodydd ychwanegol o'r panel i drafod ceisiadau yn ddibynol ar y nifer o geisiadau fydd yn dod i law.



- Mae'n ofynnol ar gyfer cworwm i ni gael 4 aelod o'r panel (yn ychwanegol i'r cadeirydd) yn bresenol a bod yna gynrychiolaeth o bob sir. Mi fydd gan y Cadeirydd yr hawl i fwrw'r bleidlais derfynol.

5.0 Adolygu

- Dylid adolygu y cylch gorchwyl yn flynyddol, ac bydd angen i aelodau'r panel gyflwyno a chytuno ar unrhyw newidiadau mewn cyfarfod o'r panel.

Gorffennaf 2020